

Adroddiad Cymru 2020



Gweithio gyda meddygon Gweithio dros gleifion

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol



Adroddiad i'r Senedd 2020

Rhagair - gan Charlie Massey, Prif Weithredwr

Ar ran y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC), mae'n bleser gennyf gyflwyno ein hadroddiad blynyddol cyntaf i'r Senedd. Cyflwynir hwn ar ôl blwyddyn hynod o heriol i'r gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol a'i gweithlu, sydd wedi gwneud gwaith anhygoel i ddarparu gofal i gleifion.

Mawr obeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn cynnig mwy o ddirnadaeth i Aelodau'r Senedd am y gwaith a wnawn. Mae'n dangos sut yr ydym wedi ymgysylltu gyda'n partneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, cyrff rheoliadol a sefydliadau sy'n cynrychioli meddygon a chleifion, ynghylch blaenoriaethau ar y cyd i wella'r gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol ehangach yng Nghymru. Mae'n amlygu hefyd sut yr ydym wedi gweithio gydag eraill i ymateb i bandemig y coronafeirws (COVID-19). Mae ymrwymiad a chydnerthedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn ogystal â grym cydweithio effeithiol, tra bod sefydliadau wedi gweithio a'u gilydd wedi creu argraff arnom ni.

Rydym yn cyflwyno ein hadroddiad cyn y disgwyliwn y bydd hon yn ddyletswydd statudol ar reolyddion yn 2021, dyletswydd yr ydym yn ei chefnogi'n gref fel rhan o set ehangach o ddiwygiadau deddfwriaethol er mwyn sicrhau bod rheoleiddio proffesiynol yn symlach ac yn fwy hyblyg. Er ein bod yn paratoi adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol ar gyfer Senedd y DU eisoes, rydym yn cefnogi'r cynnig ein bod yn cyflwyno adroddiadau o'r fath i'r dair ddeddfwrfa ddatganoledig yn y DU hefyd.

Yn 2021, byddwn yn canolbwyntio ar gynorthwyo'r gwasanaethau iechyd ar draws y DU i gwella amgylcheddu a diwyllianau gwaith, gan eu gwneud yn gefnogol, yn gynhwysol ac yn deg. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod ein prosesau mor effeithlon ac effeithiol â phosibl and rydym yn disgwyl y bydd newidiadau i ddeddfwriaeth y DU yn caniatáu inni wella sut yr ydym yn cyflawni ein rôl. Byddwn hefyd yn ymgymryd a'r rôl reoleiddio Proffesiynau Cymdeithion Meddygol, a uchafu eu cyfraniad i'r gweithlu. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda'n partneriaid er mwyn cynorthwyo'r proffesiwn mewn ffordd well, fel y gallant ddarparu'r gofal gorau i gleifion yng Nghymru ac ar draws y DU.



Charlie Massey

Yr hyn a wnawn

Mae CMC yn sefydliad annibynnol sy'n helpu i ddiogelu cleifion a gwella addysg ac arfer meddygol ar draws y DU.

- Rydym yn penderfynu pa feddygon sy'n gymwys i weithio yma ac rydym yn goruchwyllo addysg a hyfforddiant meddygol yn y DU.
- Rydym yn gosod y safonau y bydd angen i feddygon eu dilyn, gan sicrhau eu bod yn parhau i fodloni'r safonau hyd trwy gydol eu gyrfaedd.
- Rydym yn gweithredu er mwyn atal meddyg rhag peryglu diogelwch cleifion neu hyder y cyhoedd mewn meddygon.

Dylai pob claf gael gofal o safon uchel. Ein prif ddiben yw diogelu cleifion a'r cyhoedd. Y ffordd orau o wneud hyn yw trwy gynorthwyo meddygon yn eu hymdrechion i ddarparu gofal o ansawdd uchel, a lleihau'r pwysau sy'n gysylltiedig gyda'r galwadau ar y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, sy'n newid yn gyson.

Ein tîm yng Nghymru

Sefydlwyd ein swyddfa yng Nghaerdydd yn 2006. Fe'i lleolir gerllaw y Senedd ac mae'n cynorthwyo ein gweithgarwch ymgysylltu gyda meddygon, cleifion a rhanddeiliaid. Mae'r tîm, dan arweiniad Jenny Duncan, Pennaeth Gweithredol CMC Cymru, wedi ymrwmo i gynorthwyo meddygon a myfyrwyr meddygol rheng flaen. Rydym yn cynnig cyfleoedd dysgu a datblygu hefyd er mwyn helpu meddygon i ddeall ein harweiniad moesegol a'i weithredu yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Mae'r pandemig wedi arwain at newidiadau sylweddol o ran y ffordd yr ydym yn gweithio. Rydym wedi nodi ffyrdd newydd a hyblyg o gynorthwyo'r gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a chynorthwyo'r proffesiwn a chleifion.

Mae ein tîm, er enghraifft, wedi troi at ymgysylltu rhith ac mae ein cynghorwyr cyswllt cyflogwyr yn parhau i gynorthwyo cyrff iechyd i reoli pryderon yn lleol. Maent wedi cynnig cyngor am y dull sy'n newid o ran arfarnu ac ailddilysu hefyd, ynghyd â'r trothwyon ar gyfer cyfeirio meddygon at ein prosesau.

Yn ogystal, mae ein cynghorwyr cyswllt cenedlaethol wedi parhau i ddarparu sesiynau hyfforddiant am ein harweiniad. Ers dechrau'r flwyddyn, maent wedi hyfforddi 166 o feddygon rheng flaen, mewn pedwar bwrdd iechyd. Er mis Ebrill 2020, cynhaliwyd sesiynau rhith. Ac yn ystod yr haf, llwyddom i estyn allan i fyrddau iechyd ac ysgolion meddygol gan ofyn sut y gallem fodloni eu hanghenion yn y ffordd orau yn ystod y cyfnod heriol hwn. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi siarad gyda dros 300 o fyfyrwyr meddygol hefyd, a oedd yn cynnwys 10 digwyddiad rhith.

Ym mis Gorffennaf, symudom ein gweithdai 'Croeso i arfer yn y DU' a gynigir yn rhad ac am ddim, ar-lein. Mae'r sesiynau rhyngweithiol hyn, a gynlluniwyd i helpu meddygon sydd newydd ddechrau gweithio yn y DU, ar gael i'r holl raddedigion meddygol rhyngwladol (GMRhion) sy'n dechrau gweithio yng Nghymru. Bu'r sesiynau hyn yn boblogaidd iawn, wrth i dros 1,300 o feddygon gymryd rhan ar draws Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ystod chwe mis olaf 2020.

Yn ystod 2020, ceisiom safbwyntiau meddygon a chleifion hefyd er mwyn helpu i siapio'r ffordd y byddwn yn rheoleiddio yn y dyfodol; a sut y gallwn ddwyn rhanddeiliaid ar draws Cymru ynghyd, i greu amgylcheddau mwy diogel i'r rhai sy'n gweithio yn ein gwasanaeth iechyd ac sy'n cael eu trin gan ein gwasanaeth iechyd.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 12 aelod - chwech aelod lleyg a chwech aelod meddygol. Cedwir un sedd ar y Cyngor ar gyfer unigolyn sy'n byw neu sy'n gweithio yng Nghymru yn bennaf. Steve Burnett yw'r aelod hwn ar hyn o bryd.

Mae aelodau'r Cyngor yn cyflawni rôl hanfodol wrth bennu ein strategaeth a'n nodau, a thrwy oruchwylio ein gwaith fel rheolydd, ac maent yn rhoi ffocws cadarn ar ein prif rôl, sef diogelu'r cyhoedd. Mae Steve yn dwyn dirnadaeth o Gymru sy'n hanfodol i'n gwaith fel rheolydd ar draws pedair gwlad.

Fel rhan o'n fframwaith perthynas newydd, mae Neil Roberts, Cyfarwyddwr Adnoddau, wedi ymgymryd â rôl ychwanegol fel ein Noddwr ar gyfer Llywodraeth Cymru. Bydd Neil yn cynorthwyo ein Cadeirydd, Bonesig Clare Marx, Charlie Massey a'n tim yng Nghymru wrth iddynt ymgysylltu gyda swyddogion ar y lefel uchaf.

Ein hymateb i'r pandemig

Roedd lledaeniad cyflym y coronafeirws wedi creu sawl her i'r DU, i'r gwasanaeth iechyd ac i staff gofal iechyd. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gynorthwyo'r ymateb.

Gweithredom yn gyflym gan ddefnyddio ein pwerau brys er mwyn cynnig cofrestrriad dros dro i feddygon yr oeddent newydd adael y gofrestr yn ddiweddar, fel y byddent yn gallu dychwelyd i gynorthwyo'r gwasanaeth. O fis Tachwedd 2020, roedd 25,405 o feddygon wedi sicrhau cofrestrriad dros dro yn y DU, gan gynnwys 1,123 o feddygon yng Nghymru. Ym mis Tachwedd, dosbarthom arolwg i'r holl feddygon yr oedd ganddynt gofrestrriad dros dro. Bellach, rydym yn adolygu'r ymatebion er mwyn ein helpu i ystyried sut y gallwn barhau i gynorthwyo'r proffesiwn i ofalu am gleifion yn ystod y cyfnod ansicr hwn ac i'r dyfodol.

Roeddem yn falch o gael cydweithio gyda phartneriaid yng Nghymru ar bob agwedd o'r ymateb. Rhoddem ddiweddariadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru am ein dull gweithredu mewn perthynas â chofrestru brys dros dro, ac rydym yn parhau i roi cyngor i feddygon wrth iddynt ymateb i'r cymhlethdodau sydd ynghlwm â ffyrdd o weithio sydd wedi newid.

Yn ogystal, cydweithiom yn agos gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Phrifysgolion Caerdydd ac Abertawe er mwyn galluogi myfyrwyr meddygol yn eu blwyddyn olaf i gynorthwyo'r gwasanaeth iechyd yn ôl yr angen.

Roedd y prif gamau a gymrwyd gennym er helpu i gynorthwyo gyda'r ymateb i'r pandemig yn cynnwys:

- rhoi cofrestriad amodol i 7,290 o fyfyrwyr meddygol ar draws y DU, gan gynnwys 375 o Gymru
- symud dyddiadau ailddilysu rhai meddygon a diwygio ein prosesau er mwyn iddynt fod yn fwy hyblyg
- adolygu ein prosesau er mwyn sicrhau y byddai meddygon dan hyfforddiant yn gallu parhau i ddilyn eu rhaglen hyfforddiant meddygol, gan barhau i gynnal ein safonau
- gweithio gyda cholegau brenhinol meddygol a chyrrff addysg er mwyn gweithredu newidiadau i alluogi hyfforddeion i barhau i sicrhau cynnydd trwy eu hyfforddiant arbenigol, heb gwblhau gofynion penodol, lle'r oedd hi'n ddiogel gwneud hynny
- datblygu adnoddau ar-lein i feddygon er mwyn ateb cwestiynau cyffredin ynghylch gwneud gwaith meddygol yn ystod y pandemig, yn ogystal â chyfeirio meddygon at adnoddau lles defnyddiol lles gan sefydliadau yng Nghymru ac ar draws y DU
- ysgrifennu at Brif Weithredwr GIG Cymru gan ofyn am eu cymorth ar gyfer prifysgolion wrth iddynt ail-sefydlu cyfleoedd dysgu clinigol i fyfyrwyr meddygol.

Rydym yn parhau i ystyried sut y byddwn yn cyflawni rhai o'n swyddogaethau statudol mewn byd rhith newydd. Ar ôl symud i wrandawiadau rhith ym mis Mawrth, ail-agorodd y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol ym mis Awst, gan gynnal gwrandawiadau yn unol â'r rheolau ynghylch cadw pellter cymdeithasol. Rydym wedi ailgychwyn profion 1 a 2 y Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol (PLAB) hefyd, y mae angen i feddygon sy'n cyrraedd o wlad dramor eu sefyll cyn y gallant wneud gwaith meddygol. Ac rydym wedi ailgychwyn archwiliadau manylion adnabod wyneb yn wyneb ar gyfer myfyrwyr meddygol sy'n dymuno ymuno â'r gofrestr.

Cynorthwyo cleifion

Er gwaethaf y sialensiau, rydym wedi parhau i gynnwys cleifion a'r cyhoedd yn ein gwaith, fel y gallwn wella ein prosesau a'n gwaith rhyngweithio yn barhaus.

Y llynedd, lansiom ein [siarter cleifion](#) newydd i ddangos sut yr ydym yn bwriadu darparu gwasanaeth o safon uchel i'r rhai sydd wedi mynegi pryderon am eu meddyg. Mae'n

dangos ein hymrwymiad i drin pob un sy'n cysylltu â ni mewn ffordd deg a gydag urddas, gan sicrhau bod yr holl gwynion yn cael eu trin yn y ffordd fwyaf briodol.

Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i wella'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu gyda'r cyhoedd. Rydym yn cynnig sawl ffordd i gleifion a'u teuluoedd gyfathrebu gyda ni mewn amgylchedd sydd orau iddyn nhw. Pan fydd mesurau'r cyfnod clo yn caniatáu hynny, mae ein cynghorwyr cyswllt cleifion yn cyfarfod wyneb-yn-wyneb gyda chleifion yn ein swyddfa yng Nghaerdydd ac rydym yn cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg o gael cais.

Ddwywaith y flwyddyn, byddwn yn cynnal digwyddiad bord gron fawr ar draws pedair gwlad y DU er mwyn ymgysylltu gyda sefydliadau cleifion a chynrychiolwyr cleifion. Nid yn unig y mae hyn yn ein galluogi i glywed yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, ond mae'n cynnig cyfle hefyd i'n partneriaid rannu eu safbwyntiau gyda'i gilydd a chlywed am feysydd arfer da.

Rydym yn mynd trwy'r broses o ddatblygu dull gweithredu hirdymor tuag at ein gwaith ymgysylltu gyda chleifion a'r cyhoedd hefyd, a fydd yn cyd-fynd gyda'n strategaeth gorfforaethol newydd. Rydym yn dymuno ymwreiddio profion cleifion ar draws y sefydliad.

Cymru mewn niferoedd

Mae gennym gyfoeth o ddata am ein cofrestreion sy'n gweithio ar draws y DU, sy'n ein galluogi i adrodd am dueddiadau manwl yn y gweithlu meddygol.

Mae 12,198 o feddygon ar ein cofrestr sy'n gweithio yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli 4.1% o gyfanswm y meddygon (298,063) ar ein cofrestr yn y DU.*

Tabl 1 – Nifer y meddygon ar gofrestr CMC fesul gwlad yn y DU *

Lleoliad Meddyg fesul Gwlad yn y DU	Cyfanswm
Lloegr	243,981
Gogledd Iwerddon	7,806
Yr Alban	24,066
Cymru	12,198
Heb fod yn y DU	10,012
Cyfanswm	298,063

Yng Nghymru, ceir cydbwysedd o bron i 50/50 rhwng y rhywiau ar gyfer meddygon ar ein cofrestr. Ar draws y DU, mae 52.5% o feddygon ar ein cofrestr yn wrywod ac mae 47.5% ohonynt yn fenywod.*

Tabl 2 – Nifer y meddygon ar gofrestr CMC fesul lleoliad eu Prif Gymhwyster Meddygol (PMQ) *

Lleoliad Meddyg fesul Gwlad yn y DU	Nifer y meddygon			Cyfanswm
	Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)	Graddedig Meddygol Rhyngwladol (GMRh)	DU	
Lloegr	20,432	66,952	156,597	243,981
Gogledd Iwerddon	704	513	6,589	7,806
Yr Alban	1,402	2,733	19,931	24,066
Cymru	744	3,234	8,220	12,198
Heb fod yn y DU	2,582	6,582	848	10,012
Cyfanswm	25,864	80,014	192,185	298,063

Yng Nghymru, mae 67.3% o feddygon yn meddu ar gymhwyster meddygol o'r DU, mae 6.1% yn meddu ar gymhwyster a sicrhawyd yn un o wledydd AEE ac mae 26.5% yn Raddedigion Meddygol Rhyngwladol. [Mae ein data am feddygon sy'n meddu ar gymhwyster meddygol sylfaenol Ewropeaidd yn 2020](#) yn darparu gwybodaeth bellach am feddygon o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) sy'n gweithio yn y DU.

Mae 2,590 o feddygon dan hyfforddiant yng Nghymru, ac roedd 48.6% o'r rhai a oedd wedi graddio yn 2019 wedi astudio ym Mhrifysgolion Caerdydd ac Abertawe.*

Yn 2019, cawsom 273 ymholiad yng Nghymru am addasrwydd meddyg i wneud gwaith meddygol (FtP). Mae hyn yn cynrychioli 3.2% o'r cyfanswm a gawsom yn 2019.** Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi gwneud sawl newid i'n prosesau addasrwydd i wneud gwaith meddygol, fel y gallwn ddelio gyda phryderon yn gyflymach, gan leihau'r effaith ar feddygon ac yn y pen draw, diogelu cleifion mewn ffordd fwy amserol.

[Mae cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU](#) yn darparu amrediad o ddata gwreiddiol, gwaith ymchwil a dirnadaeth sy'n amlygu'r ffordd yr oedd anterth pandemig COVID-19 yn ystod y gwanwyn wedi effeithio ar wasanaethau iechyd, gofal cleifion a'r proffesiwn ym mhedair gwlad y DU.

- Roedd pedwar o bob pump (81%) meddyg wedi profi newidiadau sylweddol i'w gwaith ac roedd dros ddau o bob pump (42%) wedi cael eu hadleoli.
- Nododd un o bob tri meddyg (32%) hefyd bod cyfnod cychwynnol y pandemig wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd a'u lles meddyliol.
- Mae'r gweithlu meddygol yn parhau i dyfu, a gwelwyd nifer uwch nag erioed o'r blaen o feddygon trwyddedig rhwng 2019 a 2020 (5%). Rhwng 2012 a 2020, gwelwyd nifer y meddygon trwyddedig yn tyfu dros 14%.
- Dywedodd un o bob tri (36%) meddyg eu bod yn ystyried lleihau eu horiau clinigol, gostyngiad o bron i hanner (46%) a ddywedodd hynny yn 2019.
- Mae gweithlu meddygol y DU yn un sy'n gynyddol amrywiol o ran ei ethnigrwydd. Nododd dros hanner (54%) y meddygon a ymunodd â'r gofrestr yn 2020 eu bod yn perthyn i grŵp pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME).
- Mae nifer y GMRhion sy'n ymuno â gweithlu meddygol y DU yn parhau i godi. Rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Mehefin 2020, roedd dros 10,000 GMRh wedi ymuno – mwy na chyfanswm y graddededigion o'r DU a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd gyda'i gilydd.

* Yn gywir ar 03/11/2020.

** Caiff y dadansoddiad fesul pob gwlad yn y DU ei gyfrifo ar sail lleoliad y digwyddiad.

Cynorthwyo'r proffesiwn meddygol

Rydym yn gweithredu i roi sylw i'r materion a godwyd gyda ni ynghylch yr amgylcheddau y mae meddygon yn gweithio ynddynt, ac effaith y pwysau ar systemau ar waith meddygol.

Ym mis Chwefror, cynhaliom gyfres o ddiwyddiadau ar draws pedair gwlad y DU, lle y buom yn archwilio sut i ddatblygu'r gwaith da a wneir eisoes er mwyn cynorthwyo'r proffesiwn meddygol. Roedd y cyfarfodydd yn dilyn cyhoeddiad y tri adolygiad annibynnol a gomisiynom yn 2019, [Gofalu am feddygon](#), [Gofalu am gleifion](#); [Teg cyfeirio?](#); a'r '[Adolygiad Annibynnol o Ddynladdiad trwy esgeulustod gros a dynladdiad beius mewn arfer meddygol](#)'. Yn y digwyddiad yng Nghymru, cytunodd partneriaid i gydweithio ar raglen waith ynghylch arweinyddiaeth; ymsefydlu, cymorth a datblygiad parhaus; cydweddu rheoliadol; lles a gweithleoedd iach; a ffactorau sylfaenol ynghylch cyfleusterau a hylendid.

Trwy gydol y pandemig, rydym yn parhau i ymrwymo i'r rhaglen waith bwysig hon. Mae'n tîm yng Nghymru yn codi ymwybyddiaeth o'r argymhellion yn yr adroddiadau yn gyson, wrth i ni ryngweithio gyda meddygon, arweinwyr meddygol a chyflogwyr meddygon. Yn ogystal, rydym yn bwriadu cydweithio'n agos gydag AaGIC ynghylch arweinyddiaeth dosturiol. Ac mae gennym gynlluniau ehangach i rannu ein data gyda Llywodraeth Cymru ac AaGIC wrth iddynt ddatblygu Strategaeth Gweithlu Cymru.

Cydweithio gyda'n partneriaid

Er mwyn bod yn rheolydd effeithiol a pherthnasol ar draws pedair gwlad, rydym yn gwrandao ar safbwyntiau ein partneriaid ar draws y DU. Nid yw hyn fyth wedi bod mor bwysig wrth i'r gwasanaeth iechyd barhau i ddelio gyda phwysau'r pandemig ac mae hyn yn debygol am gryn amser eto.

Cyfarfu ein tîm gyda rhanddeiliaid yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o'n rôl a'n swyddogaethau, datblygu ein polisi a'n harweiniad, a rhannu data a dirnadaeth er mwyn helpu i atal risgiau i ddiogelwch cleifion rhag codi. Yn 2020, parhaom i ymgysylltu gydag ystod eang o bartneriaid mewn ffordd nad oedd yn eu rhoi dan ormod o bwysau yn ystod y pandemig.

- Yn ystod yr haf, estynnem allan i fyrddau iechyd i holi am y ffordd orau y gallem fodloni eu hanghenion a pharhau i gynnig cymorth i'r meddygon sy'n gweithio yn eu sefydliadau.
- Yn ystod y gwanwyn a'r haf, cyfarfu ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr gydag arweinwyr meddygol uwch yn Llywodraeth Cymru, colegau brenhinol meddygol ac AaGIC, i roi diweddariad iddynt am ein gwaith. Yn ogystal, trafodont effaith y pandemig ar y proffesiwn ac ar gleifion yng Nghymru.
- Ym mis Hydref, lansiom ein harweiniad wedi'i ddiweddarau ar gyfer y proffesiwn ynghylch [Gwneud penderfyniadau a chaniatâd](#). Mae'n darparu fframwaith er mwyn helpu meddygon i ymarfer gwneud penderfyniadau ar y cyd ac mae'n cyd-fynd gyda'r Egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus yng Nghymru. Cyn i'r arweiniad ddod i

rym, [ysgrifennodd](#) y Prif Swyddog Meddygol, ar y cyd gyda ni, at Gyfarwyddwyr Meddygol Cymru er mwyn amlygu'r arweiniad i feddygon.

- Ym mis Tachwedd, cawsom gyfarfod gyda'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, er mwyn amlinellu sut yr ydym wedi cynorthwyo'r ymateb i'r pandemig. Yn ogystal, trafodom effaith y pandemig ar y gymuned BME, a sut yr ydym yn parhau i roi sylw i faterion penodol ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rydym yn parhau i fod wedi gwneud ymrwymiad cadarn i weithio gyda'n partneriaid ar draws y DU er mwyn deall sialensiau newydd y mae'r pandemig wedi eu creu a pha gyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer mwy o hyblygrwydd ac arloesedd o fewn systemau gofal iechyd. Byddwn yn ymateb mewn ffordd ragweithiol i ac yn cefnogi unrhyw newidiadau cadarnhaol trwy weithio mewn partneriaeth gyda'n rhanddeiliaid yng Nghymru.

Rhannu data a dirnadaeth

Mae gennym berthynas gynhyrchol gydag AaGIC ac rydym yn gefnogol o fentrau sy'n cyd-fynd yn agos gyda'n blaenoriaethau, megis Arweinyddiaeth Dosturiol, gweithgarwch ymsefydlu gwell a chymorth ar gyfer lles meddygon. Eleni, cawsom gyfarfod gyda Phennaeth Data y Gweithlu a Dadansoddeg AaGIC er mwyn eu briffio ynghylch sut y gall ein data gynorthwyo eu cynlluniau gweithredu nhw ar gyfer Strategaeth Gweithlu Cymru. Rydym yn cydweithio'n agos gyda'r colegau brenhinol meddygol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac AaGIC hefyd ynghylch triongli'r data yr ydym oll yn ei ddal er mwyn creu darlun o'r gweithlu presennol a gweithlu y dyfodol.

Aliniad rheoliadol

Rydym yn cydweithio'n agos gyda'n partneriaid rheoliadol i alinio ein fframweithiau a'n hamcanion a rennir, ac rydym yn ystyried a oes modd rhannu ein dulliau gweithredu tuag at lywodraethu clinigol lleol. Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi cydweithio'n agos gydag AGIC a phartneriaid rheoliadol gofal iechyd eraill ynghylch effaith y pandemig ar wasanaethau a gweithwyr iechyd proffesiynol. Rydym yn cydweithio'n agos gyda nhw ar yr adolygiad ynghylch gwasanaethau mamolaeth ar draws Cymru hefyd, ac ynghylch y sefyllfa yn ardal Cwm Taf yn benodol, y mae eu gwasanaethau yn parhau i fod yn destun mesurau arbennig.

Ym mis Hydref, cawsom gyswllt gydag AGIC er mwyn diweddarau a chryfhau ein trefniadau rhannu gwybodaeth ac ystyried cyfleoedd i gydweithio er mwyn gwella diogelwch cleifion. Yn ogystal, cyfrannom at yr Uwchgynhadledd Gofal Iechyd a gynhaliwyd ym mis Mai ac ym mis Hydref, gan weithio gyda chyrrff arolygu a rheoliadol eraill i drafod pryderon ynghylch diogelwch cleifion yn y byrddau iechyd.

Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi cael galwadau rheolaidd gyda rheolyddion gofal iechyd eraill, gan gynnwys y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth (CNB), Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFFC), Cyngor Deintyddol Cyffredinol (CDC), i rannu profiadau a nodi unrhyw bryderon cyffredin i'w hadrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru.

Ein Fforymau Cyngori yn y DU

Ddwywaith y flwyddyn, byddwn yn ymgynghori'n ffurfiol gyda'n partneriaid trwy gyfrwng ein Fforwm Cyngori y DU. Mae'r aelodau'n cynnwys Llywodraeth Cymru, arweinwyr meddygol, cyrff addysg meddygol, rheolyddion system a phroffesiynol, a sefydliadau sy'n cynrychioli cleifion. Mae'r Fforwm yn caniatáu i ni ganolbwyntio ar flaenoriaethau hirdymor a cheisio safbwyntiau am ddatblygiad polisi.

Yn ystod ein cyfarfod FfCDU diwethaf ym mis Hydref 2020, a oedd yn gyfarfod rhith, clywsom am y sialensiau o adfer gwasanaethau wrth i'r pandemig barhau. Er gwaethaf hyn, amlygwyd cyflawniadau nodedig gan aelodau, gan gynnwys arloesi parhaus ar draws gofal iechyd, cymorth i staff o gymunedau BME, mwy o gydweithio ac aliniad rheoliadol.

Sicrhau ansawdd addysg feddygol

Un o'n prif rolau yw gosod y safonau ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant meddygol. Rydym yn cydweithio'n agos gydag AaGIC i sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu bodloni.

Yn 2019, gwelwyd ysgol feddygol Caerdydd ac Abertawe ac AaGIC yn cymryd rhan mewn peilot o'n proses sicrhau ansawdd newydd, a gynlluniwyd gennym i fod yn fwy cymesur, hyblyg ac ymatebol. Mae eu mewnbwn nhw wedi bod yn werthfawr iawn ac mae wedi ein helpu i siapio a mireinio'r broses hon, yr ydym bellach wedi'i chyflwyno i rannau eraill o'r DU.

Er mwyn cynorthwyo gwaith sicrhau ansawdd, byddwn yn cynnal arolwg hyfforddiant cenedlaethol (AHC) bob blwyddyn gyda hyfforddeion a hyfforddwyr. Eleni, gwnaethom rai newidiadau i'r AHC, o ystyried y faich bosibl ar feddygon. Penderfynom ei gwtogi, ei wneud yn fwy hygyrch a rhoi pwyslais ar y ffordd yr oedd y pandemig yn effeithio ar feddygon. Ymhlith y canlyniadau yng Nghymru, canfuom:

- bod 82% o hyfforddeion ac 88% o hyfforddwyr yn teimlo bod y pandemig wedi cyfyngu ar y cyfleoedd i hyfforddeion sicrhau cymwyseddau gofynnol
- roedd hyfforddeion wedi parhau i farnu bod eu goruchwyliaeth glinigol yn dda neu'n dda iawn (86%), sy'n cyd-fynd â'r canlyniadau o'r tri arolwg hyfforddiant cenedlaethol blaenorol
- roedd 83% o hyfforddeion a 66% o hyfforddwyr yn teimlo bod eu gweithle wedi annog diwylliant o weithio fel tîm rhwng yr holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol

- dywedodd 50% o hyfforddeion a 47% o hyfforddwyr wrthym eu bod yn aml yn teimlo neu wastad yn teimlo wedi ymladd ar ddiwedd y diwrnod gwaith.

Mae'r ffigurau hyn yn cyd-fynd yn fras gyda'r canlyniadau a welwyd yng ngwledydd eraill y DU. Fel arfer, bydd y canlyniadau yn cynorthwyo ein gwaith gydag AaGIC er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr arolwg, er mwyn rhannu enghreifftiau o arfer cadarnhaol a chynorthwyo hyfforddeion a hyfforddwyr.

Yr iaith Gymraeg

Rydym wedi gwneud ymrwymiad cryf i fodloni anghenion siaradwyr Cymraeg sy'n cael cyswllt gyda ni ac sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Mae gennym Gynllun yr Iaith Gymraeg yn barod ac rydym wedi ymrwymo i gryfhau ein gwasanaethau presennol er mwyn ymateb i anghenion y cyhoedd ac anghenion y proffesiwn, sy'n newid. Rydym yn croesawu ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch Safonau'r Gymraeg ar gyfer rheolyddion gofal iechyd. Yn ystod yr haf, cydweithiom yn agos gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad, a gyda rheolyddion gofal iechyd eraill, i sicrhau ein bod yn gallu gwella'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig ar hyn o bryd, a'n bod yn barod i wneud hynny. Byddwn yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd gyda Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn cael arweiniad ynghylch cydymffurfio pan gyflwynir y Safonau.

Edrych i'r dyfodol

Diwygio deddfwriaethol

Rydym wedi bod yn galw am newidiadau i Ddeddf Meddygol 1983 ers sawl blynedd. Credwn y bydd y diwygiadau yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ni, fel y gallwn ymateb yn well i anghenion ein rhanddeiliaid sy'n newid, a fydd yn ein galluogi i gynorthwyo meddygon yn well a gwella diogelwch cleifion. Cyn yr ymgynghoriad, rydym yn parhau i ymgysylltu gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, AaGIC, ein cyd reolyddion gofal iechyd proffesiynol a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Fel rheolydd, nid oes gennym ni ddylanwad uniongyrchol dros y ffordd y caiff y system iechyd ei strwythuro, na'r adnoddau sydd yn eu lle i'w chynorthwyo. Ond gallwn helpu'r proffesiwn i ddelio gyda'r sialensiau y mae'n eu hwynebu, ar y wardiau neu yn y gymuned. Rydym yn gwneud hyn trwy sicrhau dull cymesur pryd bynnag y bo modd er mwyn cynyddu'r amser y mae meddygon yn ei dreulio gyda chleifion gymaint ag y bo modd. Ceir rôl go iawn a rôl pendant iawn ar gyfer rheoleiddio, wrth gynorthwyo meddygon i ddarparu gofal da, ac wrth sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i wneud hynny.

Cynnwys cymdeithion meddygol proffesiynol (MAPs) mewn gweithgarwch rheoleiddio

Er 2019, rydym wedi bod yn gweithio gyda phedair llywodraeth y DU a gyda rhanddeiliaid er mwyn paratoi ar gyfer rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia. Rydym yn falch o gynorthwyo datblygiad y proffesiynau gwerthfawr hyn, sy'n gallu cyd-fynd gyda a chynorthwyo meddygon yn eu rolau. Cynrychiolir adrannau iechyd o'r bedair cenedl yn ein grŵp cynghori allanol ac rydym yn ymgysylltu mewn ffordd uniongyrchol gydag AaGIC a Llywodraeth Cymru hefyd ynghylch agweddau perthnasol ar ddatblygiad rheoliadol.

Asesiad Trwyddedu Meddygol

Rydym yn cyflwyno'r Asesiad Trwyddedu Meddygol, a fydd yn profi'r sgiliau proffesiynol hanfodol, y wybodaeth a'r ymddygiad sy'n ofynnol ar gyfer gwneud gwaith meddygol diogel yn y DU.

Bydd gofyn i bob myfyriwr sy'n graddio o ysgolion meddygol y DU o flwyddyn academaidd 2024–25 basio'r Asesiad Trwyddedu Meddygol fel rhan o'r graddau a ddyfarnir gan eu prifysgol. Bydd hyn yn galluogi myfyrwyr i sicrhau cofrestriad amodol gyda thrwydded i wneud gwaith meddygol yn y DU. Mae ysgolion meddygol a phrifysgolion wedi cytuno ymwreiddio'r Asesiad Trwyddedu Meddygol fel rhan o'r arholiadau olaf ac rydym yn cydweithio'n agos gyda nhw ar y cynllun a'r gwaith darparu, a fydd yn destun goruchwyliaeth reoliadol gennym ni.

O ddechrau 2024, bydd gofyn i'r GMRh sy'n cael yr asesiadau PLAB ar hyn o bryd, i gael yr Asesiad Trwyddedu Meddygol hefyd. Bydd hwn yn asesiad a osodir gan CMC ac a gaiff ei redeg gan CMC.

Cyn i'r Asesiad Trwyddedu Meddygol fynd yn fyw, byddwn yn parhau i gynnig y cyfle i bartneriaid allweddol a rhanddeiliaid o bedair gwlad y DU gyfrannu at ddatblygiad y rhaglen.

Strategaeth gorfforaethol

Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd ein [Strategaeth Gorfforaethol 2021–2025](#). Ein gweledigaeth yw bod yn rheolydd aml-broffesiynol effeithiol, perthnasol a thosturiol ar gyfer cleifion, y cyhoedd a gweithwyr meddygol proffesiynol, ac fel cyflogwr. Er mwyn gwneud hyn, bydd pedair thema strategol yn siapiau pob agwedd ar ein gwaith:

- galluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal diogel
- datblygu gweithlu meddygol cynaliadwy
- sicrhau bod pob cyswllt yn bwysig

- buddsoddi yn ein pobl i gyflawni ein huchelgais.

Er ein bod yn glir am yr hyn yr ydym yn dymuno ei gyflawni, rydym yn gwybod bod sicrhau newid yn cymryd amser. Dyna pam y cynlluniom y strategaeth hon i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i unrhyw faterion na allwn eu rhagweld. Yn ogystal, mae'n ein galluogi i addasu er mwyn adlewyrchu'r gwahanol flaenoriaethau sy'n effeithio ar bedair gwlad y DU.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (ED&I) yn elfen sylfaenol o'n gwaith fel rheolydd a chyflogwr, a dyma pam ein bod wedi integreiddio ymrwymadau ED&I cadarn yn ein strategaeth newydd a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Ysgogir yr ymrwymadau hyn gan ein huchelgais i sicrhau cynnydd wrth fynd i'r afael â materion parhaus sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb, a chyflawni canlyniadau a newidiadau cadarnhaol ar gyfer y grwpiau amrywiol yr ydym yn gweithio gyda nhw ac ar eu rhan. Mae cael gweithlu amrywiol a chynhwysol, o fewn CMC ac mewn systemau gofal iechyd ar draws y DU, yn hanfodol. Byddwn yn agored am ein cynnydd i nodi a rhoi sylw i faterion ynghylch tegwch ac anghydraddoldeb, trwy olrhain ein cynnydd ac adrodd amdano yn ein hadroddiadau blynyddol i Senedd y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig.

Parhau ein gwaith gyda'n gilydd yng Nghymru

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd meithrin perthnasoedd cadarn gyda'n partneriaid a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar draws Cymru er mwyn cyflawni ein nodau a pharhau i gynorthwyo'r system iechyd ehangach.

Byddwn yn parhau i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn trwy ein Fforwm Cynghori y DU, a bydd ein tîm uwch, sy'n cynnwys ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr, yn cyfarfod gydag arweinwyr gofal iechyd uwch yn rheolaidd.

Trwy ein dull o gydweithio, byddwn yn ceisio parhau i fod yn rheolydd effeithiol, perthnasol a thosturiol ar gyfer cleifion, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.

Rydym yn dymuno sicrhau bod penderfyniadau a wneir yng Nghymru sy'n effeithio ar feddygon, cleifion a CMC yn rhai cadarnhaol a gwybodus.

Byddwn yn ymgysylltu ag Aelodau'r Senedd, yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n rôl fel rheolydd ar draws pedair gwlad, a'n dyletswyddau statudol i ddiogelu cleifion.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i rannu ein data, ein gwaith ymchwil a'n dirnadaeth er mwyn gynorthwyo'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Trwy waith ein tîm yng Nghymru, byddwn yn datblygu ein perthnasoedd gwaith agos gydag AaGIC, AGIC, a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau bod y gweithlu yn cael ei gynorthwyo mewn ffordd well i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Byddwn yn gwneud hyn trwy: gydweithio gyda'n partneriaid sy'n cynorthwyo cynlluniau gweithredu Strategaeth y Gweithlu newydd; deialog barhaus a rhannu data yn Uwchgynadleddau Gofal Iechyd AGIC a gynhelir ddwywaith y flwyddyn; a thrwy godi ymwybyddiaeth o'n gwaith ymchwil ynghylch profiadau meddygon, yn enwedig y rhai o gefndiroedd BME.

Edrychwn ymlaen i gyflawni ein rôl wrth gynorthwyo'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru dros y flwyddyn i ddod.

Rhagor o Wybodaeth

Mae ein tim yng Nghymru, dan arweiniad Jenny Duncan, yn hapus i gwrdd gydag Aelodau o'r Senedd i ddarparu rhagor o wybodaeth am ein gwaith a thrafod pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol mewn adroddiadau yn y dyfodol. I drefnu cyfarfod, anfonwch e-bost atom, gmcwales@gmc-uk.org.



Jenny yw Pennaeth Gweithredol CMC Cymru, ac mae wedi gweithio i CMC er 2018, pan arferai arwain am faterion allanol a pholisi yn Yr Alban. Mae ganddi brofiad sylweddol o'r tirlun rheoliadol, polisi a deddfwriaethol yn y gwledydd datganoledig, ar ôl gweithio o fewn Llywodraeth Yr Alban, Senedd Yr Alban a'r trydydd sector. Mae gan Jenny brofiad o gael cyswllt gyda Whitehall, ar ôl bod yn gweithio i ymddiriedolaeth aml-academi flaenllaw yn Lloegr, a oedd yn adeiladu ac yn rhedeg ysgolion mewn ardaloedd lle y gwelwyd anfantais economaidd ac addysgol.

E-bost: gmc@gmc-uk.org
Gwefan: www.gmc-uk.org
Ffôn: **0161 923 6602**

General Medical Council, Regent's Place 350 Euston Road, London NW1 3JN.

Ffôn testun: **dylech ddeialu 18001**, yna **0161 923 6602** er mwyn defnyddio'r gwasanaeth Cyfleu Testun

Ymunwch â'r sgwrs



[@gmcuk](https://twitter.com/gmcuk)



facebook.com/gmcuk



linkd.in/gmcuk



youtube.com/gmcuktv

I ofyn am fersiwn Saesneg o'r cyhoeddiad hwn, neu fersiwn mewn ffurf neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu anfonwch e-bost atom, publications@gmc-uk.org.

Cyhoeddwyd Mawrth 2021

© 2021 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Mae modd atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint CMC dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

Cod: GMC/WRW2020/0321

**Cyngor
Meddygol
Cyffredinol**